

Bethan Hill 1903562 ECAD4009

Dechrau wrth fy nhraed

Beth mae'r ysgol yn gwneud i'r cymuned?

Mae fy ysgol leol yn teimlo bod en hynod o bwysig i roi nol i'r gymuned o amser i amser. Yn ôl wefan yr ysgol yn ddiweddar dechreuodd yr ysgol prosiect er mwyn cael siglenni sydd yn addas ar gyfer pobl anabl yn y parc lleol. Rheswm maen nhw yn gwneud hyn yw oherwydd does dim llawer o gylchfaoedd o gwmpas fel hyn felly bydd plant gydag anabledd yn cael y siawns i chwarae fel pob plentyn arall. Ar gyfer gwneud hyn mae angen godi miloedd o bleidleisiau o bobl yn yr ardal er mwyn ennill grant.

Esiampl arall o waith cymunedol fy ysgol leol yw tripliau lawr i'r tŷ gofal leol er mwyn canu a siarad â henoed, ffilmio ar gyfer prosiect creadigol a gwasanaeth carolau yn Eglwys leol. Mae'r cyngor ysgol wedi bod yn casglu nwyddau ar gyfer pobl a gafodd eu efeithio gan lifogydd wnaeth digwydd yn ddiweddar yn yr ardal trwy gyfrannu dillad, bwyd, diod ac adnoddau tŷ. Buodd y pwyllgor eco'r ysgol yn creu ardal bwyta ar gyfer adar allan o offer sydd wedi cael ei ailgylchu gan fod yr anifeiliaid gallu ffeindio fe yn anodd cael bwyd yn y Gaeaf a aethon nhw allan fesul dosbarth er mwyn edrych i weld y wahanol fathau o adar oedd yn dod i gael bwyd.

Cysylltiadau

Yn y Corff Llywodraeth mae yna pedwar aelod sydd yn rhiant o'r disgyblion sydd yn fy ysgol leol. Maen nhw yn dod mewn i'r ysgol ac yn helpu gyda gwahanol brosiectau'r cyngor ysgol neu'r pwyllgor eco yn ei amser rhydd. Hefyd maen nhw yn dod ar deithiau'r ysgol am ofal ychwanegol ac yn rhoi cymorth yn ystod yr Eisteddfodau'r ysgol ac unrhyw weithgareddau mae'r disgyblion yn cymryd rhan ynddo.

Mae gan yr ysgol cysylltiadau effeithiol gydag y gymuned leol a busnesau sydd yn cyfoethogi ac ehangu profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r cyfleusterau lleol er mwyn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn ogystal âg eu sgiliau cymdeithasu a llenyddiaeth. Enghraifft o hyn yw bod y disgyblion yn defnyddio'r canolfan hamdden a chaeau chwarae ar gyfer gwersi addysg gorfforol a chystadlaethau chwaraeon. Gwelon nhw fod hyn yn fuddiol iawn ac mae'r cysylltiadau sydd ganddyn nhw gyda'r gymuned yn cyfrannu yn dda tuag at fywyd a gwaith yr ysgol. Yn ychwanegol mae ei phartneriaeth a wahanol drefniadau yn hybu trosglwyddiad llwyddiannus pan fydd yr amser yn dod i'r disgyblion Blwyddyn 6 symud i'r ysgol uwchradd.

Adroddiad Estyn

Yn adroddiad Estyn mae'n nodi bod yna tua 13% o'r disgyblion yn cael bwyd ysgol am ddim sydd o dan y cyfartaledd sef 19%. Nodwyd hefyd bod yna 16% yn cael anghenion dysgu ychwanegol sydd yn cynnwys y nifer bach sydd yn cael anghenion dysgu arbennig sydd hefyd o dan y cyfartaledd arferol sef 25%. Mae yna ddisgyblion yn yr ysgol sydd yn dod o gefndiroedd tramor ac yn cael ei gofalu amdano.

Gwelwn yn adroddiad Estyn bod cyfraniad y disgyblion tuag at fywyd a gwaith yr ysgol yn effeithiol iawn. Mae'r cyngor ysgol ar bwyllgor eco yn weithredol iawn ac yn cymryd cyfrifoldeb am y penderfyniadau sydd yn cael effaith positif ar les disgyblion a'u hymwybyddiaeth o'r wahanol ddiwylliannau sydd yn yr ysgol. Enghraifft o hyn yw bod nhw yn dod o hyn i weithgaredd arall ar gyfer yr plant o wahanol grefydd i wneud yn ysgol y sioe Nadolig. Sylweddolon nhw fod y mwyafrif o'r disgyblion wedi datblygu dealltwriaeth dda o eu rôl nhw yn y gymuned. Rhoddwyd yr ysgol nifer o gyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn cystalaethau fel yr Eisteddfod a Cherdd Dant ac maent yn cymryd balchder yn llwyddiant y disgyblion. Dangoswyd hyn yr effaith mae iaith gallu cael ar yr gweithgareddau mae'r disgyblion gallu cymryd rhan ynddo gan bod yr Eisteddfod yn cael eu chynnal trwy gyfreng yr iaith Gymraeg. Mae'r disgyblion hefyd yn dangos brwdfrydedd pan mae'r cyfle yn dod i gymryd rhan mewn gwneud gwaith i'r gymuned ac yn awyddus iawn i wneud ei orau gallen nhw i cael effaith positif ar ei gymuned.

Mae'r ysgol yn cael perthynas gryf iawn gyda rhieni ac aelodau o'r gymuned sydd yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'r profiadau mae'r disgyblion yn derbyn. Dangoson nhw ddiddordeb mawr pan mae en dod i nosau gwobrwyo ac achlysurai arbennig sydd ymlaen yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymddangos yn werthfawr iawn am y gefnogaeth maen nhw yn eu derbyn o rieni ac aelodau arall o'r gymuned gyda'r gweithgareddau a phrosiectau mae'r ysgol yn cynnig.

Yn ogystal â hyn, mae'r ysgol yn dangos cymorth buddiol i deuluoedd bregus trwy wneud amrywiaeth o wahanol weithgareddau sydd yn cael effaith positif ar les y disgyblion a'i gallu i ddysgu. Mae cymdeithas rhieni yn dangos cefnogaeth i'r ysgol yn gyson ac yn helpu nhw i brynu adnoddau ac offer sydd angen arnynt ac yn cyfrannu yn ariannol tuag at unrhyw achosion arall o fewn yr ysgol.

Damcaniaeth Bronfenbrenner

Yn ôl Urie Bronfenbrenner (1979) mae popeth mae'r plentyn yn gwneud ac yr amgylchedd maen nhw ynddo yn cael effaith ar eu datblygiad ac y fordd maen nhw yn tyfu. Mae ef yn dweud bod yna gwahanol lefelau i'r amgylchedd sydd yn cael dylanwad ar ddatblygiad plentyn ac un o rain yw'r 'microsystem' sydd yn cynnwys unrhyw berthnasoedd neu sefydliad maen nhw yn rhyngweithio gydag e.e. teuluoedd, gofalwyr, ysgol neu ofal dyddiol. Y mwyafrif cefnogol a calonogol mae'r perthnasoedd yma, yr orau bydd yr effaith maen nhw yn cael ar sut mae'r plentyn yn tyfu a datblygu. Yn ogystal â hyn mae'r ffordd mae'r plentyn yn ymateb i'r perthnasoedd yma hefyd yn cael effaith ar sut maen nhw yn trin y plentyn e.e. os bydd y plentyn yn ymateb yn wael fydd y perthnasoedd hefyd yn ymateb yn yr un fordd. Mae ef hefyd yn nodi bod gwahanol rannau o'r 'microsystem' yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn datblygu gwahanol berthnasoedd a helpu gyda tyfiad y plentyn. Ffactor arall sydd yn dylanwadu yw personoliaeth yr plentyn oherwydd yn ôl Bronfenbrenner 'each child's special genetic and biologically influenced personality trait end up affecting how others treat them'.


Tlodi, diwydiant lleol, gwledig neu trefol?

Mae fy ysgol leol yng nghanol tref gyda thai, siopau a pharc o gwmpas ac mae yna 306 o ddisgyblion yn mynychu i'r ysgol. Ar gyfer ysgol gynradd mae'r nifer yma o ddisgyblion o dan y cyfartaledd o 528. Bydd hyn yn cael effaith ar fywyd ysgol a gwaith y plentyn oherwydd maen nhw yn cael perthynas gwell gyda chyd disgyblion ac yn derbyn mwy o sylw gan yr athrawon gan fod nhw gallu addasu'r cwrwclwm er mwyn cwrdd âg anghenion pob unigolyn. Pwynt arall yw bod ysgol fach yn golygu bod yna gwell amgylchedd yn y gymuned gan fod yr athrawon yn yr ysgol yn dod i nabod y disgyblion a'i theuluoedd yn well trwy adeiladu perthynas effeithiol gyda nhw.

Yn ôl y gwefan 'WIMD' mae fy ysgol leol yn cael ei rhoi yn yr 20% o'r ysgolion yn yr ardal sydd y mwyafrif difreintiedig. Gall hyn cael effaith ar addysg y plant gan fod nifer o astudiaethau wedi profi bod plant sydd yn dod o gefndiroedd mwy tlawd ddim yn gwneud crystal â phlant sydd yn dod o gefndiroedd cyfoethocach. Mae incwm teuluol hefyd yn yr 20% iselach er bod yna nifer o wahanol gyfleoedd gwaith yn yr ardal yn cynnwys cwmnïoedd byd eang a ffactorau. Er dweud hyn mae'r raddfa recriwtio gweithwyr newydd yn y dyfodol yn isel iawn. Hefyd, mae'r ysgol yn yr 10% iselach ar gyfer iechyd da yng Nghymru, sydd yn cael ei effeithio gan yr incwm isel a'r ffaith bod yr ardal yn ddifreintiedig.

Model 'Ecological' Bronfenbrenner

Dyma lun o fodel Bronfenbrenner sydd yn esbonio faint o effaith mae ffactorau penodol yn cael ar bob plentyn. Mae ef yn galw hyn yn yr 'Ecological model'. Yr ffactorau sydd yn agosach at y plentyn fel teulu a ffrindiau yn cael mwy o effaith na thechnoleg a chlybiau chwaraeon. Gwelwn hyn yn amlwg oherwydd bydd y plentyn yn gwario mwy o'i amser o gwmpas teulu a pherthnasoedd nag unrhyw le arall ac felly rhain bydd yn cael y dylanwad mwyaf, pe bai os yw hyn yn effaith positif neu negyddol.



Llun o fodel Bronfenbrenner: 'Google Images'

Dylanwad iaith

Trwy gynnal addysg trwy gydol y cyfrwng Gymraeg mae hyn yn galluogi'r ysgol i hybu'r iaith yn y gymuned. Enghraifft o hyn yw pan aeth yr ysgol a disgyblion lawr i'r eglwys leol a chanu carolau Cymraeg gydag aelodau arall o'r eglwys neu'r gymuned. Hefyd bydd yr ysgol yn gwneud eu cyngerdd Nadolig a gwasanaethau eraill trwy Gymraeg felly bydd hyn yn helpu rhieni neu ofalwyr i ddysgu'r iaith.

Ffordd arall o wneud hyn yw bod pob dosbarth yn mynd a 'pecyn darllen' adref gyda nhw ar ddiwedd pob wythnos ac yn darllen gyda'i theulu yn Gymraeg ac yna maen nhw yn ysgrifennu nodiadau ynghlyn a sut oedden nhw wedi gwneud ac ar ba safon maen nhw yn darllen. Mae gan yr ysgol system o'r enw 'Cymraeg cŵl' lle mae'r athrawon yn rhoi allan sticeri i'r plant os ydyn nhw yn siarad Cymraeg tu hwnt y dosbarth fel ar yr iard chwarae neu yn ystod clybiau ar ôl ysgol. Yna ar ddiwedd yr wythnos maen nhw yn enwu y dosbarth wnaeth casglu'r mwyafrif o sticeri 'Cymraeg cŵl' ac yn gwobrwyo nhw yn y gwasanaeth.

Rhestr cyfeirnod

Bronfenbrenner U. (2017) 'Exploring the concept of community in relation to Early Years practice'. Tt.64-66.

Bronfenbrenner U. (2017) 'Ecological Systems Theory'. Tt.2-7.

<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019>

https://www.estyn.gov.wales/inspection/search/field_local_authority/bridgend-county-borough-council-1400/field_sector/primary-1444?page=1

https://www.gulfbend.org/poc/view_doc.php?type=doc&id=7930

<https://www.psychologynoteshq.com/bronfenbrenner-ecological-theory/>

<https://www.ysgolcynwydsant.co.uk/ycs-yn-y-gymuned-ycs-in-the-community/>